**9.05.2024**

**Parthed: Ymgynghoriad – Cynnig y Comisiwn Ffiniau i ddiddymu cymunedau Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig a defnyddio'r 3 ardal i ffurfio Cymuned Newydd â wardiau, sef Ystrad Fflur**

**Ymateb:**

**Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth (YY)**

**Cyngor Cymuned Ystrad Fflur (YFf) &**

**Chyngor Cymuned Ystrad Meurig (YM)**

Hoffai aelodau Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig fynegi eu gwrthwynebiad cryf i Gynnig y Comisiwn Ffiniau i ddiddymu cymunedau Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig a defnyddio'r 3 ardal i ffurfio Cymuned Newydd â Wardiau, sef Ystrad Fflur.

Os derbynnir y Cynnig bydd:

1. Rhif Cynghorwyr YY yn gostwng o 8 i 2
2. Rhif Cynghorwyr YFf yn gostwng o 10 i 3
3. Rhif Cynghorwyr YM yn gostwng o 8 i 2

Gall gostyngiad mewn rhif Cynghorwyr Cymunedol o 26 i 7, ag ardal ddaearyddol eang i'w chynrychioli ond gwanhau llais y bobl leol a democratiaeth.

Bydd cwtogiad o 70% neu fwy o'r gynrychiolaeth bresennol ym mhob Cyngor Cymuned yn awgrymu y bydd materion o ddiddordeb/arbenigedd / gweithlu/gwybodaeth leol yn cael eu colli o fewn y Gymuned honno.

Mae 8 neu 10 o aelodau etholedig ag ystod eang o sgiliau yn galluogi pob Cyngor Cymuned i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i'r etholwyr. Cynorthwya hyn i adeiladu cydlyniant cymunedol a brwydro yn erbyn ynysu o fewn ardal gymdeithasol ddifreintiedig â gwasanaethau cyhoeddus cyfyngedig neu heb fod yn bodoli o gwbl e.e. trafnidiaeth gyhoeddus.

Ymddengys yn amhosibl i 2/3 Cynghorydd Cymuned i gynrychioli'r gymuned honno'n ddigonol.

Yn ogystal, ni fydd cynrychiolwyr un Cyngor Cymuned yn meddu ar wybodaeth fanwl am faterion sy'n berthnasol i Gyngor Cymuned arall; effeithir hyn yn andwyol wrth wneud penderfyniadau ac arferion gwaith effeithiol. Rhagwelir cyfarfodydd hwy a gallai materion sy'n berthnasol i un Cyngor Cymuned ymddangos yn amherthnasol i'r ddau Gyngor Cymuned pellach.

Medda pob Cyngor Cymuned presennol ar ei nodweddion a'i hunaniaeth ei hun. Yn hanesyddol nid yw'r dair gymuned erioed wedi cyd-weithio, oherwydd gwahaniaethau cymdeithasol a demograffig hirsefydlog ac ni ellir rhagweld hyn yn newid yn y dyfodol.

Her yw ceisio recriwtio Cynghorwyr Cymunedol newydd ac ni all y sefyllfa ond ddirywio yn y dyfodol, yn ein barn, pe wireddu'r Cynnig hwn - ni ystyrir ymgymryd â rôl Cynghorydd Cymuned a hynny'n wirfoddol yn swydd ddeniadol yn enwedig gyda'r llwyth gwaith ychwanegol. Mynegodd y mwyafrif o'r aelodau presennol na fyddant yn sefyll yn yr etholiad nesaf o dan y canllawiau arfaethedig. Mae llawer ohonynt yn Gynghorwyr ymroddedig ac yn meddu ar flynyddoedd o brofiad a gwybodaeth leol. Mae Clercod y Cynghorau Cymuned hefyd yn ystyried ailasesu eu rôl ac anodd yw rhagweld arbedion cyllidol.

Parthed y Praesept, yr arian a godir gan y Cyngor Cymuned dan law'r Cyngor Sir, tybed a'i weinyddir mewn modd teg a thryloyw, o dan y trefniant newydd? Mae praesept y 3 Cyngor Cymuned yn wahanol ar hyn o bryd. Sut mae cysoni hyn heb roi ergyd arall i breswylwyr, rhai o'r cymunedau (ar adeg pan mae Treth y Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol yn barod)?

Mynegir consyrn am ddefnydd yr iaith Gymraeg. Nod Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Ar hyn o bryd gellir cynnal cyfarfodydd Cyngor Cymuned Ystrad Ffflur a Chyngor Cymuned Ystrad Meurig drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. (Cofnodion ar gael yn Saesneg a chyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen)

O bosibl, ni chynrychiolir y Gymraeg o gwbl o dan y Cynnig ac ergyd arall i'r iaith a'r diwylliant Cymreig.

Annigonol oedd yr Ymgynghoriad Cychwynnol ar y mater hwn yn ein barn ac heb wedi'i hysbysu'n ddigonol. Mae ymgysylltiad â Chynghorau Sir a Chymuned hefyd wedi bod yn gyfyngedig.

Deallwn bod uno wardiau cymunedol o fewn Cynghorau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn cael ei weithredu'n wirfoddol. Ble mae'r cysondeb pan fydd trefniadau o fewn Cyngor Sir Ceredigion i'r gwrthwyneb?

Mae'r Cynnig hwn yn gam nôl mewn democratiaeth leol gyda goblygiadau cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol enfawr. Mae aelodau etholedig lawr gwlad Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig, yn ei chael hi'n anodd sefydlu'r rhesymeg y tu ôl i Gynnig o'r fath ac yn siomedig iawn.

Yn gywir

Eleri Thomas – Clerc – ar ran Cyngor Cymuned Ystrad Fflur
clercystradfflur@gmail.com

Annwen Isaac – Clerc – ar ran Cyngor Cymuned Ystrad Meurig
annwen.isaac@btinternet.com

Ian Williams – Clerc – ar ran Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth
ian.williams06@btopenworld.com